# CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL

Rhaid cyflwyno’r yn bersonol yn un o Ganolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor yn: - 41 Stryd y Cei, Rhydaman, SA18 3BS- Uned A, Rhodfa'r Santes Catrin, Caerfyrddin, SA31 1GA- 36 Stryd Stepney, Llanelli, SA15 3TR

**Sylwch: Gall cais gymryd hyd at 6 Mis i'w Brosesu.**

a) Trwydded Yrru Gyfredol – Sylwer, o 8 Mehefin 2015 ymlaen ni fydd rhan bapur y drwydded yrru â cherdyn llun yn ddilys ac ni fydd yn cael ei rhoi mwyach gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA). Er mwyn cyflwyno tystiolaeth o'u cofnod gyrru, mae'n rhaid i ymgeiswyr roi "côd gwirio" gan y DVLA i'r adain drwyddedu. Gellir cael hwn drwy fynd ar-lein www.gov.uk/view-driving-licence neu drwy ffonio'r DVLA ar 0300 083 0013. Dim ond am 21 diwrnod y bydd y côd a roddir gan y DVLA yn ddilys.

b) Un llun ohonoch a dynnwyd yn ddiweddar (Steil/Maint Pasbort).

c) Holiadur meddygol wedi'i gwblhau.

d) Dogfennau Adnabod Gwreiddiol ar gyfer eich gwiriad DBS (gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd cysylltiedig) ynghyd â'r ffi o £49.50. Wedyn anfonir dolen gyswllt atoch i gwblhau'r cais DBS ar-lein. Mae angen ceisiadau am ddatgeliad ar gyfer rhoi trwydded yn y lle cyntaf a phob chwe mis. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr danysgrifio i Wasanaeth Diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a rhaid iddynt gyflwyno eu Tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u ffurflen Ganiatâd wedi'i Llofnodi. Pan fo'n berthnasol, mae angen gwiriad cofnod troseddol Tramor neu Dystysgrif Ymddygiad Da.

**Os oes angen Tystysgrif Ymddygiad Da ac na ellir ei darparu, bydd y cais yn anghyflawn ac yn cael ei wrthod**

**e)** Ffi briodol ar gyfer y Drwydded: **Trwydded 1 Flwyddyn £98.00 neu Drwydded 3 blynedd £180.00**

**(Noder - bydd y drwydded 3 blynedd yn cael ei hadolygu'n flynyddol a bydd gofyn i ymgeiswyr gyflwyno eu Trwydded Yrru a'u Côd Gwirio bob blwyddyn. Yn ogystal, os daw DBS neu dystysgrif Feddygol yr ymgeisydd i ben yn ystod y cyfnod hwn, rhaid cyflwyno DBS neu dystysgrif Feddygol newydd i'r awdurdod)**

f) Ffi prawf gwybodaeth o £25.00 fesul prawf. Unwaith y bydd y cais am yrrwr wedi'i dderbyn, bydd yr ymgeisydd yn derbyn e-bost sy'n cynnwys y pecyn prawf Gwybodaeth a Chanllawiau. **Bydd y prawf gwybodaeth yn cael ei wneud wyneb yn wyneb un i un.**

Nodwch: Rhaid i bob ymgeisydd newydd wneud prawf gwybodaeth cyn y gellir rhoi Trwydded. Y marc pasio ar gyfer y prawf hwn yw 80%. Dim ond ar ôl i'r ymgeisydd dderbyn Tystysgrif DBS Ddilys y gellir archebu'r prawf gwybodaeth, a hynny drwy gysylltu â'r Adran. Ni fydd yn rhaid i ymgeiswyr sydd wedi cael trwydded yn y 12 mis diwethaf wneud y prawf gwybodaeth. Os bydd ymgeiswyr yn methu'r prawf gwybodaeth ddwywaith, bydd eu cais yn cael ei wrthod.

g) Prawf o'r Hawl i Drwydded.

O fis Rhagfyr 2016 bydd eich hawl i weithio yn y DU yn cael ei gwirio fel rhan o'ch cais trwyddedu, gallai hyn gynnwys bod yr awdurdod trwyddedu yn gwirio eich statws mewnfudo gyda'r Swyddfa Gartref. Felly, rhaid i chi ddarparu naill ai "Côd Rhannu" oddi wrth Gov.uk yn https://www.gov.uk/prove-right-to-work neu ddogfen neu gyfuniad o ddogfennau y nodir eu bod yn addas ar gyfer y gwiriad hwn. Mae'r rhestr o ddogfennau wedi'i hatodi yn Atodiad A. Rhaid i chi ddod â'r ddogfen/dogfennau gwreiddiol, megis pasbort neu drwydded breswylio fiometrig fel y nodir yn Atodiad A, fel y gellir cynnal y gwiriad.

O 1 Awst 2019 ymlaen, dechreuodd Cyngor Sir Caerfyrddin ddefnyddio'r Gofrestr Genedlaethol o Wrthodiadau, Ataliadau a Dirymiadau Trwyddedau Tacsi (NR3). Mae rhagor o wybodaeth ynghlwm fel Atodiad B.

Os bydd unrhyw fanylion ar y ffurflen hon yn newid cyn bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ystyried eich cais, bydd yn ofynnol ichi gyflwyno manylion ysgrifenedig o fewn 48 awr ar ôl y newidiadau. Mae dyletswydd arnom, fel corff cyhoeddus, i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a weinyddir gennym, ac i'r diben hwn mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon i atal a darganfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Mae sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir yn bwysig iawn o ran darparu ein gwasanaethau a chadw hyder y cyhoedd.

Data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson, y mae modd adnabod pwy ydyw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy ddefnyddio'r wybodaeth. Defnyddir y termau 'gwybodaeth' a 'data personol' drwy'r hysbysiad preifatrwydd a'r un yw eu hystyr.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir, rydym yn ceisio cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. I weld yr Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Trwyddedu, ewch i: www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/diogelu-data/hysbysiadau-preifatrwydd/trwyddedu/

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan y Cyngor neu drwy gysylltu â'r adran hon.

**Gwiriad Treth (lle bo'n berthnasol)**

Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth fel rhan o geisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat.
Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen **canllawiau** CThEF ar gofrestru fy ngwiriad treth.
Drwy ddarparu fy nghôd gwirio treth CThEF rwy'n cydsynio i'r Cyngor gadarnhau gyda CThEF fy mod wedi cynnal gwiriad treth.
Rwy'n deall na fyddaf yn cael trwydded os na fyddaf yn darparu côd gwirio treth.

**DEFNYDD SWYDDFA**

Derbyniwyd………………………...
Trwydded DVLA …………………..
Côd Gwirio DVLA....................
Tystysgrif Feddygol.....................
Ffi'r cais: **£98** ☐ **£180** ☐
Ffi DBS: **£49.50** ☐
Ffi Prawf Gwybodaeth **£25** ☐
Cyfanswm a dalwyd **£**
Rhif Derbynneb …………………...

Cais am Ddatgelu Gwybodaeth.....

**CAIS AM DRWYDDED
YRRU DDEUOL AR GYFER
CERBYD HACNAI / PREIFAT**

Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

**Nodwch isod Hyd y Drwydded sydd ei hangen arnoch.**

**Trwydded 1 Flwyddyn £98.00 yna £48.00 wrth adnewyddu bob blwyddyn** ☐

neu

**Trwydded 3 blynedd £180.00 yna £131.00 wrth adnewyddu bob 3 blynedd** ☐

**(Noder - bydd y drwydded 3 blynedd yn cael ei hadolygu'n flynyddol a bydd gofyn i ymgeiswyr gyflwyno eu Trwydded Yrru a'u Côd Gwirio bob blwyddyn. Hefyd os yw DBS neu dystysgrif Feddygol ymgeisydd yn dod i ben yn ystod y cyfnod hwn, rhaid iddynt gyflwyno DBS neu dystysgrif Feddygol newydd i'r awdurdod)**

**DS: RHAID ATEB POB CWESTIWN YN LLAWN
DEFNYDDIWCH BRIFLYTHRENNAU**

---

Cyfenw ………………………………………………… Mr/Mrs//Miss ………………………

Cyfenw Blaenorol...............................................................................................…....

Enwau Cyntaf …………………………………………………………………….……………..

Cyfeiriad ……………………………………………………………………………….…………

…………………………………………………………………………………….………………

Côd Post ………………………

Rhif Ffôn Cartref………………………….. Symudol…………………………………

E-bost ……………………………………………………………………………………………

Cyfeiriad blaenorol ………………………………………………………………………………

A gawsoch chi eich geni yn y DU **DO/NADDO**
Os 'Naddo', rhowch fanylion ……………………………………………………….…………

A fuoch chi erioed yn byw mewn gwlad y tu allan i'r D.U. **DO/NADDO**
Os 'Do', rhowch fanylion ………………………………………………………………..………….

Pa mor hir ydych chi wedi bod yn byw yn y DU....................................................

A oes gennych chi hawl i weithio yn y DU **OES/NAC OES**

Swydd/Galwedigaeth ………………………………………………………………………

**<u>Gwiriadau Treth -</u>** Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth fel rhan o geisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat.

**Dim ond os ydych yn gwneud cais ar neu ar ôl 4 Ebrill 2022 y mae'r adran hon yn berthnasol, ac os ydych yn gwneud unrhyw un o'r canlynol:**

- adnewyddu trwydded; neu
- gwneud cais am yr un math o drwydded â'r un oedd gennych yn flaenorol, a oedd yn peidio â bod yn ddilys lai na blwyddyn yn ôl; neu
- gwneud cais am yr un math o drwydded â'r un sydd gennych eisoes gydag awdurdod trwyddedu arall

| **Côd Gwirio Treth** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

1. Oed yr Ymgeisydd:.................................... Dyddiad Geni ……………………..……

2. Manylion Trwydded DVLA cyfredol Dyddiad cyflwyno..........................

Rhif cyfresol.......................................... Grwpiau..........................................

Côd Gwirio DVLA..........................................................................................

3 (a) A ydych erioed wedi dioddef pwl o Epilepsi, y Bendro neu wedi cael unrhyw salwch difrifol arall sy’n debygol o effeithio ar eich gyrru? **YDW/NAC YDW**

Os 'YDW', rhowch fanylion ……………………………………………………………..…

3 (b) A ydych yn dioddef o unrhyw gyflwr corfforol sy’n debygol o effeithio ar eich Gyrru? **YDW/NAC YDW**

Os 'YDW', rhowch fanylion ………………………………………..……………….

4. A ydych erioed wedi eich cael yn euog o

(a) Unrhyw drosedd foduro? **YDW/NAC YDW** Os YDW, rhowch fanylion isod

Trosedd Dyddiad yr euogfarn Ardystiadau Cosb

………………………………………………………………………………………..………….

...……………………………………………………………………………………..…………

…………………………………………………………………………………………..………….

(b) Unrhyw drosedd sy’n ymwneud ag anonestrwydd, anweddusrwydd neu drais? **YDW/NAC YDW**

(c) Unrhyw drosedd arall (mae hyn yn cynnwys erlyniadau gan berson neu sefydliad heblaw’r Heddlu) **YDW/NAC YDW**

Os ateboch YDW i (b) neu (c) uchod, rhowch fanylion

| Trosedd | Dyddiad yr euogfarn | Ardystiadau | Cosb |
|---|---|---|---|

……………………………………………………………………………………………...

…………………………………………………………………………………………..….

5. A oes unrhyw achosion Llys yn aros yn eich erbyn? **OES/NAC OES**

Os 'OES', rhowch fanylion
…………………………………………………………………………….

…………………………………………………………………………………………….

6 (a) A ydych yn cael eich cyflogi neu a fyddwch yn cael eich cyflogi fel Gyrrwr amser llawn neu ran-amser?
**AMSER LLAWN /RHAN-AMSER**

6(b) Os rhan-amser, nodwch nifer yr oriau’r wythnos fyddwch yn cael eich cyflogi............

6 (c) Rhowch enw a chyfeiriad perchennog y cerbyd y byddwch yn defnyddio’ch trwydded ar ei gyfer
……………………………………………………………………………………….…

7 Manylion cyflogaeth (Amser llawn neu ran-amser) yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf

| Enw’r Cyflogwr | Cyfeiriad y Cyflogwr | Cyfnod Cyflogaeth O .........Tan | Rheswm dros Adael |
|---|---|---|---|

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

8. A oes gennych ar hyn o bryd, neu a ydych wedi cael yn y gorffennol, drwydded yrru a roddwyd gan Awdurdod heblaw Cyngor Sir Caerfyrddin? **OES/DO NAC OES/NADDO**

Os 'Oes/Do', rhowch fanylion
………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………….

Rwyf wedi darllen yr amodau ac rwyf yn datgan fy mod wedi gwirio’r wybodaeth a roddwyd yn y cais hwn a hyd eithaf fy ngwybodaeth, ei bod yn gywir.

Rwyf yn deall os wyf yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol, bod fy nghais yn agored i gael ei wrthod a bod fy nhrwydded yn agored i gael ei hatal neu ei dirymu.

**D.S.** Os ydych yn fwriadol neu drwy esgeulustod yn gwneud datganiad ffug neu’n hepgor unrhyw ddeunydd, yn enwedig wrth roi gwybodaeth ar y ffurflen hon byddwch yn euog o drosedd dan ddarpariaethau Adran 57 (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, a gallech gael dirwy.

---

**Sylwer bod ymgeisydd, trwy lofnodi'r ffurflen hon, yn caniatáu i'r holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys Statws Mewnfudo, manylion am unrhyw gollfarnau neu rybuddiadau, gael ei datgelu rhwng yr Heddlu, y Cyngor, y Swyddfa Gartref a Phwyllgor Trwyddedu yr Awdurdod, ac y gallai hyn olygu y bydd materion o'r fath yn cael eu trafod mewn cyfarfod sy'n agored i'r wasg ac i'r cyhoedd ac yn cael eu cofnodi yng nghofnodion ffurfiol y cyfarfod hwnnw**.

Llofnodwyd …………………………………………Dyddiedig ……………………………

# Atodiad A: Rhestri o ddogfennau derbyniol ar gyfer gwiriadau hawl i weithio

Lle bo gwiriad hawl i weithio wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein, darperir y wybodaeth mewn amser real yn uniongyrchol o systemau'r Swyddfa Gartref ac nid oes rheidrwydd i wirio unrhyw un o'r dogfennau isod.

**Rhestr A – dogfennau derbyniol i sefydlu esgus statudol parhaus**

1. Pasbort (cyfredol neu hen) yn dangos bod y deiliad, neu unigolyn a enwir yn y pasbort fel plentyn i'r deiliad, yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd o'r DU a'r Trefedigaethau sydd â hawl i breswylio yn y DU.

2. Pasbort neu gerdyn pasbort (cyfredol neu hen) yn dangos bod y deiliad yn wladolyn Gweriniaeth Iwerddon.

3. Dogfen gyfredol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i aelod teulu dinesydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, ac sy'n dangos bod gan y deiliad yr hawl i aros yn y Deyrnas Unedig am gyfnod amhenodol.

4. Dogfen a gyhoeddwyd gan Feilïaeth Jersey, Beilïaeth Guernsey neu Ynys Manaw, y mae Gwasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref wedi cadarnhau ei bod yn ddilys, yn dangos bod y deiliad wedi cael caniatâd diderfyn i ddod yma neu i aros yma o dan Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo Jersey, Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo (Beilïaeth Guernsey) 2008 neu Atodiad yr EU i Reolau Mewnfudo Ynys Manaw.

5. Dogfen Mewnfudo Biometrig gyfredol (Hawlen Preswylio Biometrig) a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad sy'n dangos bod caniatâd gan yr unigolyn a enwir i aros am gyfnod amhenodol yn y DU, neu nad oes terfyn amser ar ei arhosiad yn y DU.

6. Pasbort cyfredol a gymeradwywyd i ddangos bod y deiliad wedi'i eithrio o reolaeth mewnfudo, â chaniatâd i aros am gyfnod amhenodol yn y DU, â hawl i breswylio yn y DU, neu nad oes terfyn amser ar ei arhosiad yn y DU.

7. Dogfen Statws Mewnfudo gyfredol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad gydag ardystiad sy'n dangos bod caniatâd gan yr unigolyn a enwir i aros am gyfnod amhenodol yn y DU, neu nad oes terfyn amser ar ei arhosiad yn y DU, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a roddwyd gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

8. Tystysgrif geni neu fabwysiadu a roddwyd yn y DU, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a roddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

9. Tystysgrif geni neu fabwysiadu a roddwyd yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a roddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

10. Tystysgrif cofrestru neu frodori fel dinesydd Prydeinig, **ynghyd â** dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a roddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

## RHESTR B Grŵp 1 - dogfennau lle mae esgus statudol am gyfnod cyfyngedig o amser yn para hyd nes y dyddiad daw'r caniatâd i ben

1. Pasbort cyfredol a gymeradwywyd i ddangos bod gan y deiliad ganiatâd i aros yn y DU a chaniatâd ar hyn o bryd i wneud y math o waith dan sylw.

2. Dogfen Mewnfudo Biometrig gyfredol (Hawlen Preswylio Biometrig) a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad sy'n dangos y gall yr unigolyn a enwir aros ar hyn o bryd yn y DU a bod ganddo/ganddi ganiatâd i wneud y gwaith dan sylw.

3. Dogfen gyfredol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i aelod teulu dinesydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, ac sy'n dangos bod gan y deiliad yr hawl i aros yn y DU am gyfnod cyfyngedig o amser ac i wneud y math o waith dan sylw.

4. Dogfen a gyhoeddwyd gan Feilïaeth Jersey, Beilïaeth Guernsey neu Ynys Manaw, y mae Gwasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref wedi cadarnhau ei bod yn ddilys, yn dangos bod y deiliad wedi cael caniatâd diderfyn i ddod yma neu i aros yma o dan Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo Jersey, Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo (Beilïaeth Guernsey) 2008 neu Atodiad yr EU i Reolau Mewnfudo Ynys Manaw.

5. Dogfen a gyhoeddwyd gan Feilïaeth Jersey neu Feilïaeth Guernsey, y mae Gwasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref wedi cadarnhau ei bod yn ddilys, yn dangos bod y deiliad wedi gwneud cais am ganiatâd i ddod yma neu i aros yma o dan Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo Jersey neu Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo (Beilïaeth Guernsey) 2008, cyn neu ar 30 Mehefin 2021.

6. Trwydded gweithiwr trawsffiniol a roddwyd dan reoliad 8 y Rheoliadau Dinasyddion (Gweithwyr Trawsffiniol) (Ymadael â'r UE) 2020.

7. Dogfen Statws Mewnfudo gyfredol sy'n cynnwys ffotograff a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad gyda chymeradwyaeth ddilys sy'n dangos y gall yr unigolyn a enwir aros yn y DU, a bod ganddo/ganddi ganiatâd i wneud y math o waith dan sylw, ynghyd â dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a roddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

## Rhestr B Grŵp 2 - dogfennau lle mae esgus statudol yn para am gyfnod cyfyngedig o chwe mis

1. Dogfen a roddwyd gan y Swyddfa Gartref sy'n dangos bod y deiliad wedi gwneud cais am ganiatâd i ddod yma neu i aros yma o dan Atodiad yr UE i reolau mewnfudo (a elwir yn Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE) ar neu cyn 30 Mehefin 2021 **ynghyd â Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol** gan Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref.

2. Dogfen a gyhoeddwyd gan Feilïaeth Jersey neu Feilïaeth Guernsey, yn dangos bod y deiliad wedi gwneud cais i gael caniatâd i ddod yma neu i aros yma o dan Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo Jersey neu Atodiad yr UE i Reolau Mewnfudo (Beilïaeth Guernsey) 2008 cyn neu ar 30 Mehefin 2021 **ynghyd â Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol** gan Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref.

3. Cerdyn Cofrestru Cais a roddwyd gan y Swyddfa Gartref yn datgan bod gan y deiliad hawl i gymryd y gyflogaeth dan sylw, **ynghyd â Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol** gan Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref.

4. Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol a roddwyd gan Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref i'r cyflogwr neu ddarpar gyflogwr sy'n dangos y gall yr unigolyn a enwir aros yn y DU a bod hawl ganddo/ganddi i wneud y gwaith dan sylw.

# ATODIAD B

## Cofrestr Genedlaethol o Achosion o Wrthod a Dirymu Trwydded Tacsi (NR3)

Nod Cofrestr Genedlaethol newydd o Achosion o Wrthod a Dirymu Trwydded Tacsi (NR3) yw atal gyrwyr sydd wedi cael trwydded cerbyd hacnai neu gerbyd hurio preifat (PHV) wedi'i dirymu neu gais wedi'i wrthod, rhag mynd i awdurdod arall i sicrhau trwydded yn anonest trwy fethu â datgelu eu hanes trwyddedu blaenorol.

Bydd NR3 yn galluogi awdurdodau trwyddedu i rannu manylion unigolion sydd wedi cael trwydded wedi'i dirymu neu gais wedi'i wrthod.

Dechreuodd Cyngor Sir Caerfyrddin ddefnyddio NR3 o 1 Awst 2019 ac o'r pwynt hwn:

- bydd pob cais am drwyddedau Cerbyd Hacnai / PHV newydd a'u hadnewyddu yn cael ei wirio ar yr NR3
- pan fo trwydded bresennol yn cael ei dirymu neu os gwrthodir cais am adnewyddu neu drwydded newydd, bydd hyn yn cael ei gofnodi ar NR3

Bydd gwybodaeth hanesyddol am wrthod a dirymu trwyddedau am hyd at 25 mlynedd hefyd yn cael ei hychwanegu at y gofrestr.

Gellir ystyried data perthnasol a gofnodwyd ar NR3 sy'n ymwneud â deiliaid trwydded presennol fel rhan o brosesau adnewyddu y dyfodol.

Bydd y wybodaeth a gofnodir ar NR3 wedi'i chyfyngu i'ch:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad a manylion cyswllt
- rhif yswiriant gwladol
- rhif trwydded yrru
- y penderfyniad a wnaed
- dyddiad y penderfyniad
- dyddiad daeth y penderfyniad i rym

Bydd gwybodaeth yn cael ei chadw ar NR3 am 25 mlynedd.  Os bydd manylion ymgeisydd yn cael eu nodi ar NR3 yn ystod chwiliad, fe eir ar drywydd hynny ar wahân rhwng awdurdodau.

Er y bydd yn ofynnol o hyd i awdurdodau trwyddedu ystyried pob cais ar ei rinweddau ei hun, bydd cyflwyno NR3 yn helpu i sicrhau eu bod yn gallu gwneud hynny ar sail yr holl wybodaeth berthnasol.

# Diogelu Data

Bydd yr holl brosesu a rhannu data a wneir gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar yr NR3 a chydag awdurdodau eraill mewn perthynas â'r hyn a gofnodir ar yr NR3 yn cael eu gwneud yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw ei bod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn yr awdurdod trwyddedu hynny yw, asesu a yw unigolyn yn berson addas a phriodol i ddal trwydded cerbyd hacnai neu drwydded PHV.

**Ni fwriedir i ddata NR3 gael ei drosglwyddo o'r DU.**

Os hoffech godi unrhyw fater sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys drwy ddibynnu ar unrhyw un o'r hawliau a roddir i wrthrychau data o dan y GDPR, gallwch wneud hynny i Swyddog Diogelu Data Cyngor Sir Caerfyrddin ar (01267) 234567.

Mae gennych hefyd yr hawl i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.